OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 101 (Cy. 24)

2025 No. 101 (W. 24)

CAFFAEL TIR, CYMRU

ACQUISITION OF LAND, WALES

DIGOLLEDU, CYMRU

COMPENSATION, WALES

Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025

The Home Loss Payments (Prescribed Amounts) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cynyddu uchafsymiau ac isafsymiau'r taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf Digolledu Tir 1973 ("y Ddeddf") i'r rhai sy'n meddiannu annedd, neu sy'n cael eu trin fel pe baent yn meddiannu annedd, sydd â buddiant perchennog. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu hefyd swm y taliad colli cartref sy'n daladwy o dan y Ddeddf mewn unrhyw achos arall.

Mae gan berson a ddadleolir o annedd drwy brynu gorfodol neu o dan amgylchiadau eraill a bennir yn adran 29 o'r Ddeddf hawlogaeth i gael taliad colli cartref.

Mewn achosion pan fo gan berson sy'n meddiannu annedd, neu sy'n cael ei drin fel pe bai'n meddiannu annedd, ar ddyddiad y dadleoli fuddiant perchennog, mae adran 30(1) o'r Ddeddf yn darparu bod swm y taliad colli cartref yn cael ei gyfrifo fel canran o werth y buddiant hwnnw ar y farchnad, a hynny'n ddarostyngedig i uchafswm ac isafswm.

Mae adran 30(2) o'r Ddeddf yn pennu swm y taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall.

Mae rheoliad 2(a) o'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r uchafswm sy'n daladwy o dan adran 30(1) o'r Ddeddf o £62,000 i £82,000 ac mae rheoliad 2(b) yn cynyddu'r isafswm o £6,200 i £8,000.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which apply in relation to Wales, increase the maximum and minimum amounts of home loss payments payable under the Land Compensation Act 1973 ("the Act") to those occupying, or treated as occupying, a dwelling who have an owner's interest. These Regulations also increase the amount of home loss payment payable under the Act in any other case.

A person who is displaced from a dwelling by compulsory purchase or in other circumstances specified in section 29 of the Act is entitled to a home loss payment.

Section 30(1) of the Act provides that in cases where a person occupying, or treated as occupying, a dwelling on the date of displacement has an owner's interest, the amount of home loss payment is calculated as a percentage of the market value of that interest, subject to a maximum and minimum amount.

Section 30(2) of the Act specifies the amount of the home loss payment in any other case.

Regulation 2(a) of these Regulations increases the maximum amount payable under section 30(1) of the Act from £62,000 to £82,000 and regulation 2(b) increases the minimum amount from £6,200 to £8,000.

Mae rheoliad 2(c) yn cynyddu'r taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall, o dan adran 30(2) o'r Ddeddf, o £6,200 i £8,000.

Mae rheoliad 3 yn dirymu, gydag arbedion, Reoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 2(c) increases the home loss payment in any other case, under section 30(2) of the Act, from £6,200 to £8,000.

Regulation 3 revokes, with savings, the Home Loss Payments (Prescribed Amounts) (Wales) Regulations 2020.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2025 Rhif 101 (Cy. 24)

CAFFAEL TIR, CYMRU

DIGOLLEDU, CYMRU

Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025

Gwnaed	*30 Ionawr 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*3 Chwefror 2025*
Yn dod i rym	*5 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 30(5) o Ddeddf Digolledu Tir 1973(**1**).

Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 5 Mawrth 2025.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Digolledu Tir 1973;

mae i "taliad colli cartref" yr ystyr a roddir i "home loss payment" gan adran 29(1) o'r Ddeddf.

(**1**) 1973 p. 26. Amnewidiwyd adran 30 gan adran 68(3) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) gydag effaith o 25 Medi 1991 (*gweler* erthygl 3 o O.S. 1991/2067). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 30 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

2025 No. 101 (W. 24)

ACQUISITION OF LAND, WALES

COMPENSATION, WALES

The Home Loss Payments (Prescribed Amounts) (Wales) Regulations 2025

Made	*30 January 2025*
Laid before Senedd Cymru	*3 February 2025*
Coming into force	*5 March 2025*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the power conferred upon them by section 30(5) of the Land Compensation Act 1973(**1**).

Title, coming into force, application and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Home Loss Payments (Prescribed Amounts) (Wales) Regulations 2025 and they come into force on 5 March 2025.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations—

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Land Compensation Act 1973;

"home loss payment" (*"taliad colli cartref"*) has the meaning given by section 29(1) of the Act.

(**1**) 1973 c. 26. Section 30 was substituted by section 68(3) of the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34) with effect from 25 September 1991 (*see* S.I. 1991/2067, article 3). The functions of the Secretary of State under section 30 were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1. The functions of the National Assembly for Wales under section 30 were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162(1) of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Diwygio symiau rhagnodedig y taliad colli cartref

2. Pan fo dyddiad y dadleoli ar 5 Mawrth 2025 neu ar ôl hynny—

(a) £82,000 yw uchafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf,

(b) £8,000 yw isafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf, ac

(c) £8,000 yw swm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(2) o'r Ddeddf.

Dirymu ac arbedion

3.—(1) Mae Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu dirymu.

(2) Bydd y Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â dadleoli sy'n digwydd cyn 5 Mawrth 2025.

Revision of prescribed amounts for home loss payment

2. When the date of displacement is on or after 5 March 2025—

(a) the prescribed maximum amount of home loss payment for the purposes of section 30(1) of the Act is £82,000,

(b) the prescribed minimum amount of home loss payment for the purposes of section 30(1) of the Act is £8,000, and

(c) the prescribed amount of home loss payment for the purposes of section 30(2) of the Act is £8,000.

Revocation and savings

3.—(1) The Home Loss Payments (Prescribed Amounts) (Wales) Regulations 2020(**1**) are revoked.

(2) The Regulations referred to in paragraph (1) will continue to have effect in relation to a displacement occurring before 5 March 2025.

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
30 Ionawr 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
30 January 2025

©ⓑHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2020/340 (Cy. 77).

(**1**) S.I. 2020/340 (W. 77).

ISBN 978-0-348-39651-5

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/101

9 780348 396515